Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN

## CB5

**Enw cyntaf** ______________________________

**Cyfenw** ______________________________

**Ysgol** YSGOL CYMERAU

**Dosbarth** ______________________________

**Dyddiad geni** ◯◯ ◯◯ ◯◯◯◯

**Dyddiad y prawf** ◯◯ 05 2017

**Cyfanswm y sgôr** ◯ (uchafswm 35)

150317

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Roedd llyfrgell y dref yn llawn. Roedd timau o ddeg ysgol wedi dod at ei gilydd ar gyfer y cwis llyfrau. "Dw i wedi darllen pob llyfr ar restr Blwyddyn 4," meddai Sam. Teimlai Aled yn nerfus iawn, ond roedd yn edrych ymlaen at ateb cwestiynau am y llyfr chwaraeon ar restr Blwyddyn 5. Yn sydyn, daeth dyn tal i mewn i'r ystafell. Galwodd enw'r ddwy ysgol gyntaf i gystadlu. Gwenodd Sam ar Aled a dweud, "Paid poeni. Ni yw'r gorau, cofia. Rydyn ni'n siŵr o ennill yn erbyn Ysgol Bryn Bach!"

**a** Sawl ysgol oedd yn cystadlu yn y cwis?

Ticiwch **1.**

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd angen ei dicio.

- dwy ☐
- pedair ☐
- pump ☐
- deg ☐

YSGOL CYMERAU

---

**b** **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos sut roedd Aled yn teimlo.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

________________________

---

**c** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Aled yn edrych ymlaen | ☐ |
| Sam yn siarad am baratoi | ☐ |
| y timau'n cyrraedd | 1 |
| dyn tal yn dod i mewn | ☐ |
| galw enwau'r ddwy ysgol gyntaf | ☐ |

---

**ch** Tynnwch **3** llinell i ddangos pwy oedd wedi gwneud beth.

| | |
|---|---|
| Sam | darllen llyfr chwaraeon |
| y dyn tal | darllen popeth ar y rhestr |
| Aled | galw enwau'r timau |

---

**d** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

Awgrym: Gwiriwch beth sydd angen ei danlinellu.

**Tanlinellwch** yr ymadrodd sy'n dangos barn Sam am ei ysgol.

> Yn sydyn, daeth dyn tal i mewn i'r ystafell. Galwodd enw'r ddwy ysgol gyntaf i gystadlu. Gwenodd Sam ar Aled a dweud, "Paid poeni. Ni yw'r gorau, cofia. Rydyn ni'n siŵr o ennill yn erbyn Ysgol Bryn Bach!"

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

YSGOL CYMERAU

---

**dd** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd y timau'n cystadlu yn neuadd y dref. | | |
| Roedd llyfr chwaraeon ar y rhestr. | | |
| Roedd Sam wedi darllen mwy nag un llyfr. | | |

**STOPIWCH**

## Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus CYN dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn yn ofalus CYN ateb y cwestiynau ac yn y blaen.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 15, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**

## Steffan yn hedfan

Dyna anrheg wych gan Yncl Tomos! Mae anrhegion Yncl Tomos yn rhai gwerth eu cael bob amser. Nid fel rhai Anti Hannah. Mae hi'n rhoi sanau i mi bob tro. Dyna pam dw i'n ei galw hi'n Anti Sana, y tu ôl i'w chefn.

Yn wahanol i Anti Hannah, mae Yncl Tomos yn defnyddio'i ddychymyg pan fydd o'n prynu anrhegion, ac mae Miss Williams yn dweud wrthon ni bob amser, "Cofiwch ddefnyddio eich dychymyg, Blwyddyn 5. Mae popeth yn bosibl yn y dychymyg."

Mae Yncl Tomos bob amser yn prynu rhyw declyn newydd, cyffrous i mi. Er, a dweud y gwir, pan welais i anrheg Yncl Tomos y tro hwn ro'n i'n ofni ei fod o, am y tro cyntaf erioed, *heb* ddefnyddio ei ddychymyg. Roedd y parsel – oedd wedi'i lapio mewn papur o luniau pobl yn disgyn mewn parasiwt o awyren – yn edrych yn fach ofnadwy ac yn denau iawn.

Ond pan agorais yr amlen diflannodd y siom, oherwydd y tu mewn iddi, roedd yr anrheg fwyaf cyffrous a ges i erioed – tocyn am sesiwn hedfan corff!

Felly, ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, aeth Yncl Tomos a fi i'r ganolfan hedfan corff. Ro'n i'n edrych ymlaen ond yn teimlo'n nerfus ofnadwy ar yr un pryd! Roedd rhaid i mi wisgo gwisg arbennig a gogls, ac yna camu i dwnnel lle roedd wal o wynt yn chwythu ar gant ac ugain milltir yr awr ac yn fy nal yn yr awyr. Ro'n i'n hedfan fel aderyn. Un eiliad, fi oedd Peter Pan, yr eiliad nesaf Batman, ac yna Superman!


"Drychwch, bawb!" gwaeddodd Yncl Tomos. "Mae Steffan yn hedfan!"

**Ffeithiau am hedfan corff**

YSGOL CYMERAU

Mae nifer o ganolfannau arbennig yn cynnig profiad hedfan corff i oedolion ac i blant dros bump oed. Fel arfer mae'r profiad yn para rhwng 15 a 30 munud. Wrth hedfan yn y twnnel rydych chi'n datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol wrth wneud naid parasiwt o awyren. Ar eich ymweliad cyntaf â'r twnnel byddwch chi'n codi tua 1.5m i'r awyr, ond ar ôl ymarfer, mae'n bosibl codi hyd at 6m.

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'n bosibl 'hedfan' y tu mewn i adeilad.



**1** **Dewiswch** a **chopïwch** yr enw doniol y byddai Steffan yn ei ddefnyddio am ei fodryb.

______________________________

1 — 1m

**2** *"Mae popeth yn bosibl yn y dychymyg."*

Beth roedd Miss Williams yn ei feddwl wrth ddweud hynny?

Mae popeth yn bosibl …

Ticiwch **1**.

- yn eich meddwl. ☐
- yn eich dosbarth. ☐
- wrth weithio'n galed. ☐
- wrth ysgrifennu'n daclus. ☐

2 — 1m

**3** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch** y geiriau sy'n rhoi cliw am beth oedd yn y parsel.

YSGOL CYMERAU

> Mae Yncl Tomos bob amser yn prynu rhyw declyn newydd, cyffrous i mi. Er, a dweud y gwir, pan welais i anrheg Yncl Tomos y tro hwn ro'n i'n ofni ei fod o, am y tro cyntaf erioed, *heb* ddefnyddio ei ddychymyg. Roedd y parsel – oedd wedi'i lapio mewn papur o luniau pobl yn disgyn mewn parasiwt o awyren – yn edrych yn fach ofnadwy ac yn denau iawn.

3 — 1m

**4** Pa rai o'r isod sy'n disgrifio ymateb cyntaf Steffan pan welodd y parsel?

Ticiwch **2**.

- penderfynol ☐
- balch ☐
- siomedig ☐
- ansicr ☐
- hapus ☐

4 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**5** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

a) **Tanlinellwch** yr ymadrodd sy'n dangos bod y sesiwn hedfan corff wedi digwydd yn fuan ar ôl i Steffan dderbyn yr anrheg.

> Felly, ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, aeth Yncl Tomos a fi i'r ganolfan hedfan corff. Ro'n i'n edrych ymlaen ond yn teimlo'n nerfus ofnadwy ar yr un pryd! Roedd rhaid i mi wisgo gwisg arbennig a gogls, ac yna camu i dwnnel lle roedd wal o wynt yn chwythu ar gant ac ugain milltir yr awr ac yn fy nal yn yr awyr. Ro'n i'n hedfan fel aderyn. Un eiliad, fi oedd Peter Pan, yr eiliad nesaf Batman, ac yna Superman!

5a ◯ 1m

b) O'r darn uchod, **dewiswch** a **chopïwch** y geiriau sy'n dangos pa mor gyflym roedd y gwynt yn chwythu.

_______________________________________________

5b ◯ 1m

**6** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

YSGOL CYMERAU

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Steffan yn agor yr amlen | ☐ |
| Steffan yn disgrifio Anti Hannah | ☐ |
| Steffan yn disgrifio'r parsel | ☐ |
| Steffan yn darganfod yr anrheg | 5 |
| Steffan yn sôn am ei athrawes | ☐ |

6 ◯ 1m

**7** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Byddai Anti Hannah yn prynu anrhegion diddorol bob amser. | | |
| Byddai Yncl Tomos yn prynu anrhegion llawn dychymyg. | | |
| Roedd tocyn llyfr yn y parsel gafodd Steffan. | | |
| Roedd Yncl Tomos wedi mwynhau gweld Steffan yn hedfan. | | |
| Nid oedd llawer o wynt yn y twnnel. | | |
| Nid oedd Steffan wedi mwynhau'r profiad hedfan. | | |

7
2m

**8** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r isod.

| | |
|---|---|
| hyd y profiad hedfan | 1.5m |
| uchder hedfan i bobl sy'n dechrau | 200km yr awr |
| uchder hedfan i bobl brofiadol | 15–30 munud |
| cyflymder uchaf y gwynt | 6m |

YSGOL CYMERAU

8
1m

**9** Dyma gopi o'r testun.


Labelwch bob saeth i ddangos beth yw pwrpas pob rhan o'r testun.

**A** – geiriau Yncl Tomos

**B** – gwybodaeth ffeithiol am y profiad

**C** – barn Steffan am anrhegion Anti Hannah

**Ch** – barn Steffan am anrhegion Yncl Tomos



**Steffan yn hedfan**

Dyma anrheg wych gan Yncl Tomos! Mae anrhegion Yncl Tomos yn rhai gwerth eu cael bob amser. Nid fel rhai Anti Hannah. Mae hi'n rhoi sanau i mi bob tro. Dyna pam dw i'n ei galw hi'n Anti Sana, y tu ôl i'w chefn.

Yn wahanol i Anti Hannah, mae Yncl Tomos yn defnyddio'i ddychymyg pan fydd o'n prynu anrhegion, ac mae Miss Williams yn dweud wrthon ni bob amser, "Cofiwch ddefnyddio eich dychymyg, Blwyddyn 5. Mae popeth yn bosibl yn y dychymyg."

Mae Yncl Tomos bob amser yn prynu rhyw declyn newydd, cyffrous i mi. Er, a dweud y gwir, pan welais i anrheg Yncl Tomos y tro hwn ro'n i'n ofni ei fod o, am y tro cyntaf erioed, *heb* ddefnyddio ei ddychymyg. Roedd y parsel – oedd wedi'i lapio mewn papur o luniau pobl yn disgyn mewn parasiwt o awyren – yn edrych yn fach ofnadwy ac yn denau iawn.

Ond pan agorais yr amlen diflannodd y siom, oherwydd y tu mewn iddi, roedd yr anrheg fwyaf cyffrous a ges i erioed – tocyn am sesiwn hedfan corff!

Felly, ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, aeth Yncl Tomos a fi i'r ganolfan hedfan corff. Ro'n i'n edrych ymlaen ond yn teimlo'n nerfus ofnadwy ar yr un pryd! Roedd rhaid i mi wisgo gwisg arbennig a gogls, ac yna camu i dwnnel lle roedd wal o wynt yn chwythu ar gant ac ugain milltir yr awr ac yn fy nal yn yr awyr. Ro'n i'n hedfan fel aderyn. Un eiliad, fi oedd Peter Pan, yr eiliad nesaf Batman, ac yna Superman!

"Drychwch, bawb!" gwaeddodd Yncl Tomos. "Mae Steffan yn hedfan!"

**Ffeithiau am hedfan corff**

Mae nifer o ganolfannau arbennig yn cynnig profiad hedfan corff i oedolion ac i blant dros bump oed. Fel arfer mae'r profiad yn para rhwng 15 a 30 munud. Wrth hedfan yn y twnnel rydych chi'n datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol wrth wneud naid parasiwt o awyren. Ar eich ymweliad cyntaf â'r twnnel byddwch chi'n codi tua 1.5m i'r awyr, ond ar ôl ymarfer, mae'n bosibl codi hyd at 6m.

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'n bosibl 'hedfan' y tu mewn i adeilad.



9
1m

*trosodd*

CYFANSWM
7m

## Ffrind newydd

Athrawes biano Shauna oedd Madam Daniels Davies. Cafodd ei rhuthro i'r ysbyty a doedd neb i ofalu am Nodyn, ei chath. Dyma Shauna'n dweud yr hanes …

Agorais y ffenest a gafael yn Nodyn a'i mwytho nes ei bod hi'n canu grwndi yn uchel dros y lle.

"Shh, Nodyn," meddwn i wrthi, "rhag i Mam a Dad dy glywed di. Os gwelith Dad di, bydd yn siŵr o dy daflu allan, pws fach."

Ond mae'n rhaid ei bod yn rhy hapus i roi'r gorau i ganu grwndi. Roeddwn innau'n hapus hefyd a phenderfynais y funud honno fod yn rhaid iddi aros gyda fi am byth. Dad oedd y broblem. Roedd Dad yn siŵr o wrthod, achos roedd e wedi dweud yn ddigon plaen y tu allan i dŷ Madam Daniels Davies na fyddwn i'n cael ei chadw. Roedd yn rhaid i mi gael cynllun, ond am y tro, penderfynais guddio'r gath o dan y blancedi.

Roedd hi mor hyfryd cael gorwedd yno'n gynnes braf, gyda Nodyn o dan y dillad gwely. Roedd y ddwy ohonon ni mor hapus. Ond yn anffodus, torrwyd ar ein hapusrwydd gan sŵn Mam yn dringo'r grisiau. Clywais i hi'n agor y drws. Dechreuodd fy nghalon garlamu.

"Nos da, Shauna," meddai gan roi cusan i mi.

"Nos da, Mam," atebais.

Diffoddodd y golau.

"Nos da, Nodyn," meddwn yn dawel wedyn a rhoi fy mraich ar y blew bach du a gwyn. "Fi sydd piau ti am nawr."

Roedd Madam wedi mynd a dim ond fi oedd yna i ofalu am Nodyn. Dim ond fi. Felly, fy Nodyn i oedd hi nawr.

Mi fyddai Nodyn a fi wedi cysgu'n dawel drwy'r nos oni bai am Ben, fy mrawd bach!

Roedd Ben dair blynedd yn ifancach* na fi a dydy plant pump oed ddim yn gallu cadw cyfrinach.

Clywais ddrws fy ystafell wely yn agor a sŵn traed Ben yn llusgo tuag ata i.

"Cer 'nôl i dy wely, Ben!" sibrydais.

"Ond, Shauna! Dw i isio dod atat ti," cwynodd.

"Wel, chei di ddim. Cer 'nôl i dy wely neu cer at Mam a Dad. Dw i isio cysgu," meddwn innau'n gas.

"Ond dw i isio gwybod beth ddigwyddodd i dy athrawes biano di."

"Cer 'nôl i dy wely a dw i'n addo y dyweda i wrthot ti bore 'fory. Iawn?"

"O plîs, Shauna."

Ac ar hynny, cododd Ben y dillad gwely yn barod i neidio i mewn wrth fy ochr.
Y cwbl glywais i oedd: "Y?" Wedyn "E?"
Ac yna bloedd: "MAM! Mae cath yng ngwely Shauna!"



*ifancach – iau

**1** Pwy sy'n dweud y stori?

Ticiwch **1**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ben | ☐ | Nodyn | ☐ |
| Mam | ☐ | Shauna | ☐ |
| Dad | ☐ | | |

1 1m

**2** Aeth Madam Daniels Davies i'r ysbyty ar frys.

**Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos hynny.

______________________________

2 1m

**3** Trefnwch symudiadau Mam, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| dringo'r grisiau | 1 |
| dweud nos da | ☐ |
| cusanu Shauna | ☐ |
| agor y drws | ☐ |
| diffodd y golau | ☐ |

YSGOL CYMERAU
YSGOL CYMERAU
YSGOL CYMERAU

3 1m

**4** Daeth Nodyn i dŷ Shauna achos …

| | Ticiwch **2**. |
|---|---|
| doedd Dad ddim eisiau cath. | ☐ |
| doedd Madam Daniels Davies ddim gartref. | ☐ |
| doedd neb arall i ofalu amdani. | ☐ |
| roedd Ben eisiau cath. | ☐ |
| roedd y drws ar agor. | ☐ |

4 1m

**5** Edrychwch ar y paragraff sy'n dechrau *Roedd hi mor hyfryd* … .

**Dewiswch** a **chopïwch** y frawddeg sy'n dangos bod Shauna'n nerfus.

____________________________________________________________

5 1m

CYFANSWM 5m



*trosodd*

**6** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Ben yn darganfod y gath | ☐ |
| Ben yn gofyn cwestiynau i Shauna | ☐ |
| Ben yn gweiddi ar ei fam | 5 |
| drws yr ystafell wely yn agor | ☐ |
| Shauna'n dweud nos da wrth Nodyn | ☐ |

6 ◯ 1m

**7** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod Shauna yn siarad yn dawel.

> Mi fyddai Nodyn a fi wedi cysgu'n dawel drwy'r nos oni bai am Ben, fy mrawd bach!
> Roedd Ben dair blynedd yn ifancach na fi a dydy plant pump oed ddim yn gallu cadw cyfrinach.
> Clywais ddrws fy ystafell wely yn agor a sŵn traed Ben yn llusgo tuag ata i.
> "Cer 'nôl i dy wely, Ben!" sibrydais.

YSGOL CYMERAU

7 ◯ 1m

**8** *"Cer 'nôl i dy wely neu cer at Mam a Dad. Dw i isio cysgu," meddwn innau'n gas.*

Pam dywedodd Shauna hyn?

| | Ticiwch **1**. |
|---|---|
| Merch greulon oedd hi. | ☐ |
| Roedd hi wedi blino. | ☐ |
| Doedd hi ddim yn hoffi Ben. | ☐ |
| Doedd hi ddim eisiau i Ben weld y gath. | ☐ |

8 ◯ 1m

**9** Llenwch y tabl isod er mwyn dangos sut roedd Shauna'n teimlo bob tro.

Ticiwch **hapus** neu **anhapus** ar gyfer pob brawddeg.

| | **Hapus ☺** | **Anhapus ☹** |
|---|---|---|
| Nodyn yn canu grwndi | | |
| Dad yn gwrthod cadw Nodyn | | |
| gorwedd yn y gwely gyda Nodyn | | |
| Ben yn dod i'w hystafell wely | | |
| Ben yn gweiddi "MAM!" | | |

9 — 2m

**10** Tynnwch **3** llinell i ddangos beth roedd Ben yn ei wneud bob tro.

| | |
|---|---|
| cwyno | "Y?" Wedyn "E?" |
| synnu | "MAM!" |
| codi ei lais | "Ond, Shauna!" |

YSGOL CYMERAU

10 — 1m

**11** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Daeth Nodyn i mewn i'r tŷ trwy'r drws cefn. | | |
| Roedd Dad eisiau cath yn y tŷ. | | |
| Roedd Nodyn yn hapus gyda Shauna. | | |
| Rhedodd Ben i mewn i ystafell Shauna. | | |
| Gwelodd Ben y gath. | | |
| Roedd Ben eisiau dod at Shauna. | | |

11 — 2m

*trosodd*

CYFANSWM 8m

## Postio o bedwar ban byd

Pa mor aml y byddwch chi neu aelod o'r teulu'n postio cerdyn neu lythyr?
Pan fyddwch chi eisiau cysylltu â rhywun, beth fyddwch chi'n ei wneud fel arfer?
Ffonio? Anfon neges o'r ffôn neu'r cyfrifiadur?


Er bod llai o lythyrau'n cael eu postio nawr, mae rhai pobl ar eu gwyliau'n mwynhau postio cardiau post o leoedd anghyffredin i brofi eu bod nhw wedi teithio yno. Dyma hanes dwy swyddfa'r post unigryw y mae'n werth i'r teithiwr anturus eu gweld.




### Swyddfa'r post o dan y môr

Mae dŵr yn bwysig iawn i'r swyddfa arbennig hon sydd ger ynysoedd Vanuatu yn y Cefnfor Tawel. Yn wir, dyma'r unig swyddfa'r post sydd o dan y môr! Mae'n rhaid i'r staff a'r ymwelwyr nofio i lawr tua thri metr, gan wisgo fflipers a snorcl.

Mae amseroedd agor swyddfa'r post Vanuatu i'w gweld ar arwydd ar y traeth. Hefyd, bydd y staff yn gosod baner arbennig uwchben y lle, er mwyn dangos y ffordd i'r cwsmeriaid. Mae cardiau post arbennig sy'n gallu gwrthsefyll dŵr ar werth yno. Felly, hyd yn oed pan mae'r swyddfa ar gau, mae'n bosibl i nofwyr bostio cardiau mewn bocs postio o dan y dŵr neu ar y traeth. Ar ôl postio cerdyn, gall ymwelwyr fynd am dro o gwmpas y gerddi cwrel hardd a syllu ar y pysgod amryliw sy'n byw yno.



### Swyddfa'r post Port Lockroy yn Antarctica

Mae swyddfa'r post ar Ynys Goudier. Mae'n ynys fach iawn – tua'r un maint â chae pêl-droed. Mae'r tywydd yn arw iawn yno am y rhan fwyaf o'r flwyddyn – eira mawr, iâ trwchus a gwyntoedd cryf dros ben. Yn ystod misoedd yr haf (rhwng Tachwedd a Mawrth, gan fod cyfandir Antarctica wedi'i leoli yn Hemisffer y De) mae pedwar person yn gweithio ar yr ynys.

Un o'r bobl hynny yw'r bostfeistres sy'n gofalu am swyddfa'r post fwyaf deheuol y byd. Ei chwsmeriaid yw'r 18,000 o ymwelwyr sy'n teithio ar longau mawr ac yn galw ar yr ynys bob haf. Maen nhw'n gallu prynu ac ysgrifennu cardiau post cyn eu postio mewn blwch arbennig y tu mewn i swyddfa'r post. Maen nhw hefyd yn ymweld â'r amgueddfa yno ac yn mwynhau tynnu lluniau o'r miloedd o bengwiniaid sy'n byw ar yr ynys.




Dydy bywyd postfeistres Port Lockroy ddim yn hawdd o gwbl. Rhaid clirio llwybrau yn yr eira (yng nghanol y pengwiniaid drewllyd!) a chario bocsys trwm dros greigiau slic*. Ar ben hynny, dim ond unwaith y mis mae'n bosibl cael cawod, achos bod dŵr tap yn brin iawn!

*slic – llithrig

**1** Edrychwch ar y paragraff sy'n dechrau *Er bod llai o lythyrau'n ....*

Yn ôl y darn, pam mae pobl eisiau anfon cardiau post o leoedd anghyffredin?

Ticiwch **1**.

- i rybuddio pobl eraill yn erbyn teithio yno ☐
- fel bod pobl eraill yn gweld llun o swyddfa'r post ☐
- fel bod pobl eraill yn gwybod eu bod nhw wedi bod yno ☐
- i ddweud hwyl fawr wrth bobl eraill ☐

1 — 1m

**2** Beth sy'n arbennig am y swyddfa'r post ger ynysoedd Vanuatu?

Dyma'r unig swyddfa'r post sydd ...

Ticiwch **1**.

- ar ben mynydd. ☐
- o dan y môr. ☐
- mewn ogof. ☐
- yn Hemisffer y De. ☐

2 — 1m

YSGOL CYMERAU

**3** Beth allwch chi ei wneud yn Vanuatu ar ôl postio cerdyn post?

Ticiwch **1**.

- clirio llwybrau yn yr eira ☐
- gweld cwrel a physgod amryliw ☐
- gweld gêm bêl-droed ☐
- cael cawod boeth ☐

3 — 1m

**4** Pam mae awdur y darn yn dweud bod Ynys Goudier *tua'r un maint â chae pêl-droed*?

Ticiwch **1**.

- fel ein bod ni'n gallu gweld yr ynys ar fap o'r byd ☐
- fel ein bod ni'n gallu teithio i'r ynys gywir ☐
- fel ein bod ni'n gallu chwarae pêl-droed ar yr ynys ☐
- fel ein bod ni'n gallu deall beth yw maint yr ynys ☐

4 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**5** Edrychwch ar y paragraff sy'n dechrau *Dydy bywyd postfeistres ....*

**Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n disgrifio'r pengwiniaid ar Ynys Goudier.

_______________________________

5 ◯ 1m

**6** Pam mae seren wrth y gair *slic*?

Ticiwch **1**.

er mwyn dangos bod y gair yn arbennig ☐
er mwyn dangos ei fod yn air anodd ☐
er mwyn dangos bod esboniad o'r gair ☐
er mwyn dangos ei fod yn air doniol ☐

6 ◯ 1m

**7** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r bobl â'r peth maen nhw'n ei wneud.

| | |
|---|---|
| staff swyddfa'r post Vanuatu • | • gosod baner arbennig |
| cwsmeriaid swyddfa'r post Vanuatu • | • teithio ar longau mawr |
| postfeistres Port Lockroy • | • prynu cardiau post sy'n gwrthsefyll dŵr |
| ymwelwyr ag Ynys Goudier • | • clirio llwybrau yn yr eira |

YSGOL CYMERAU

7 ◯ 1m

**8** Pwy fyddai'n addas i weithio yn y ddwy swyddfa'r post?

Rhywun sy'n ...

Ticiwch **2**.

hoffi bod yn agos i fyd natur. ☐
ofni natur. ☐
anhapus drwy'r amser. ☐
casáu'r môr. ☐
hoffi cwrdd ag ymwelwyr. ☐
hoffi gweithio mewn tref. ☐

8 ◯ 1m

9 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae llai o lythyrau'n cael eu postio nawr. | | |
| Mae'n rhaid nofio i gyrraedd swyddfa'r post Vanuatu. | | |
| Mae miloedd o bengwiniaid yn byw ar ynysoedd Vanuatu. | | |
| Mae'r tywydd bob amser yn braf ar Ynys Goudier. | | |
| Mae bywyd postfeistres Port Lockroy yn hawdd iawn. | | |
| Mae digon o ddŵr tap ar Ynys Goudier. | | |

9

2m

10 Dyma gopi o'r testun.


Labelwch bob saeth i ddangos beth yw pwrpas pob rhan o'r testun.

**A** – cyflwyniad

**B** – gwybodaeth am Ynys Goudier

**C** – gwybodaeth am swyddfa'r post Vanuatu

**Ch** – pennawd


Postio o bedwar ban byd

Pa mor aml y byddwch chi neu aelod o'r teulu'n postio cerdyn neu lythyr? Pan fyddwch chi eisiau cysylltu â rhywun, beth fyddwch chi'n ei wneud fel arfer? Ffonio? Anfon neges o'r ffôn neu'r cyfrifiadur?

Er bod llai o lythyrau'n cael eu postio nawr, mae rhai pobl ar eu gwyliau'n mwynhau postio cardiau post o leoedd anghyffredin i brofi eu bod nhw wedi teithio yno. Dyma hanes dwy swyddfa'r post unigryw y mae'n werth i'r teithiwr anturus eu gweld.

**Swyddfa'r post o dan y môr**

Mae dŵr yn bwysig iawn i'r swyddfa arbennig hon sydd ger ynysoedd Vanuatu yn y Cefnfor Tawel. Yn wir, dyma'r unig swyddfa'r post sydd o dan y môr! Mae'n rhaid i'r staff a'r ymwelwyr nofio i lawr tua thri metr, gan wisgo fflipers a snorcl.

Mae amseroedd agor swyddfa'r post Vanuatu i'w gweld ar arwydd ar y traeth. Hefyd, bydd y staff yn gosod baner arbennig uwchben y lle, er mwyn dangos y ffordd i'r cwsmeriaid. Mae cardiau post arbennig sy'n gallu gwrthsefyll dŵr ar werth yno. Felly, hyd yn oed pan mae'r swyddfa ar gau, mae'n bosibl i nofwyr bostio cardiau mewn bocs postio o dan y dŵr neu ar y traeth. Ar ôl postio cerdyn, gall ymwelwyr fynd am dro o gwmpas y gerddi cwrel hardd a syllu ar y pysgod amryliw sy'n byw yno.

**Swyddfa'r post Port Lockroy yn Antarctica**

Mae swyddfa'r post ar Ynys Goudier. Mae'n ynys fach iawn – tua'r un maint â chae pêl-droed. Mae'r tywydd yn arw iawn yno am y rhan fwyaf o'r flwyddyn – eira mawr, iâ trwchus a gwyntoedd cryf dros ben. Yn ystod misoedd yr haf (rhwng Tachwedd a Mawrth, gan fod cyfandir Antarctica wedi'i leoli yn Hemisffer y De) mae pedwar person yn gweithio ar yr ynys.

Un o'r bobl hynny yw'r bostfeistres sy'n gofalu am swyddfa'r post fwyaf deheuol y byd. Ei chwsmeriaid yw'r 18,000 o ymwelwyr sy'n teithio ar longau mawr ac yn galw ar yr ynys bob haf. Maen nhw'n gallu prynu ac ysgrifennu cardiau post cyn eu postio mewn blwch arbennig y tu mewn i swyddfa'r post. Maen nhw hefyd yn ymweld â'r amgueddfa yno ac yn mwynhau tynnu lluniau o'r miloedd o bengwiniaid sy'n byw ar yr ynys.

Dydy bywyd postfeistres Port Lockroy ddim yn hawdd o gwbl. Rhaid clirio llwybrau yn yr eira (yng nghanol y pengwiniaid drewllyd!) a chario bocsys trwm dros greigiau slic*. Ar ben hynny, dim ond unwaith y mis mae'n bosibl cael cawod, achos bod dŵr tap yn brin iawn!

*slic – llithrig

10

1m

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM

7m

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Steffan yn hedfan' addaswyd o'r stori *Steffan yn Hedfan* gan Gareth William Jones o'r gyfrol *Beth am stori? 10 stori fer i blant* gol. Caryl Lewis (Y Lolfa, 2014)
a
www.indoorskydivingsource.com

'Ffrind newydd' addaswyd o *Caru Nodyn* gan Gareth William Jones (Gwasg Carreg Gwalch, 2008)

'Postio o bedwar ban byd' addaswyd o www.ukaht.org
a
www.telegraph.co.uk/news/worldnews/antarctica/11416343/Apply-to-run-this-Antarctic-post-office-if-you-can-stand-the-penguins.html
a
www.vanuatupost.vu/index.php/en/underwater-post

Mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2017